# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Fideo gynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 14 Ionawr 2021

Amser: 13.30 - 16.00

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/11149

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Mike Hedges AS (Cadeirydd)<br>Janet Finch-Saunders AS<br>Llyr Gruffydd AS<br>Neil Hamilton AS<br>Jenny Rathbone AS<br>Rhianon Passmore AS (yn lle Joyce Watson AS) |
| Tystion: | Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig<br>Gian Marco Currado, Llywodraeth Cymru<br>John Howells, Llywodraeth Cymru<br>Dean Medcraft, Llywodraeth Cymru<br>Tim Render, Llywodraeth Cymru<br>Jackie Price, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Elizabeth Wilkinson (Clerc)<br>Andrea Storer (Dirprwy Glerc) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Chloe Corbyn (Ymchwilydd)<br><br>Elfyn Henderson (Ymchwilydd)<br><br>Rhiannon Lewis (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Joyce Watson AS. Dirprwyodd Rhianon Passmore AS ar ei rhan.

1.3 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, cafwyd datganiad gan y Cadeirydd ei bod wedi penderfynu y dylid gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

1.4 Os byddai unrhyw broblemau technegol yn codi yn ystod y cyfarfod, gan olygu y byddai ei gyswllt band eang yn cael ei dorri, nododd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno y byddai Jenny Rathbone AS yn cymryd ei lle fel Cadeirydd Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

## 2 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22

2.1 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig mewn perthynas â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22.

## 3 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22

3.1 Parhaodd y Pwyllgor i graffu ar waith Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig mewn perthynas â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22.

## 4 Papurau i'w nodi

4.1 Cafodd y papurau eu nodi.

4.1 Gohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ynghylch trefniadau dros dro ar gyfer llywodraethu amgylcheddol

4.2 Gohebiaeth gan y Cadeirydd at y Llywydd ynghylch trefniadau dros dro ar gyfer llywodraethu amgylcheddol

4.3 Gohebiaeth gan y Cadeirydd at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer Bil yr Amgylchedd

4.4 Gohebiaeth rhwng Pwyllgor yr Amgylchedd, Newid Hinsawdd a Diwygio Tir Senedd yr Alban a'r Cadeirydd ynghylch y Fframwaith Cyffredin ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU

4.5 Gohebiaeth gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch y Fframwaith Cyffredin ar gyfer Sylweddau Peryglus (Cynllunio)

4.6 Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol Tŷ'r Cyffredin at y Gweinidog Gwladol dros Dai ynghylch y Fframwaith Cyffredin ar gyfer Sylweddau Peryglus (Cynllunio)

4.7 Gohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ynghylch Bil Amaethyddiaeth y DU – Trydydd darlleniad

4.8 Gohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Gadeirydd Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â Bil Pysgodfeydd y DU

4.9 Gohebiaeth ychwanegol rhwng y Cadeirydd a Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ynghylch Rheoliadau Amaethyddiaeth (Cymalau Enghreifftiol ar gyfer Cyfarpar Sefydlog) (Cymru) 2019

**4.10** **Gohebiaeth gan Undeb Amaethwyr Cymru ynghylch Adolygiad o Wariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig**

**4.11** **Gohebiaeth mewn perthynas â'r anghydfod sy'n parhau i fynd rhagddo rhwng Nwy Prydain ac Undeb y GMB**

**4.12** **Gohebiaeth gan Centrica (Nwy Prydain) ynghylch trafodaethau gydag Undeb y GMB**

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitemau 2 a 3

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn ystod y sesiynau craffu.

## 7 Sesiwn friffio gyfreithiol a thrafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ynghylch Bil Amgylchedd y DU

7.1 Cafodd yr Aelodau friff cyfreithiol a thrafodwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ynghylch Bil Amgylchedd y DU.

## 8 Trafod llythyr drafft ynghylch y Fframwaith Cyffredin ar gyfer Sylweddau Peryglus (Cynllunio)

8.1 Trafododd y Pwyllgor y llythyr drafft ynghylch y Fframwaith Cyffredin ar gyfer Sylweddau Peryglus (Cynllunio), a chytunodd arno.